Sioe
ABERYSTWYTH and Ceredigion County Show
a Sir Ceredigion

Fronfraith Fach
Comins Coch
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BH

☎ 01970 617481
mob 07767411573

Annwyl

Cyfleoedd newydd i ddod yn noddwyr Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion

Ysgrifennaf atoch fel Cadeirydd Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion i'ch hysbysu ein bod yn cynnig y cyfle i gwmnïau, grwpiau ac unigolion noddi adrannau yn y sioe a gynhelir ddydd Sadwrn 13 Mehefin 2009.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gefnogodd y sioe y llynedd. Yn dilyn llwyddiant sioe 2008, mae pecynnau noddi ar gael eleni eto am yr un pris â'r llynedd. Yn naturiol, rydym yn rhoi'r dewis cyntaf i'r busnesau a'r unigolion hynny a gefnogodd y sioe yn 2008.

Mae'r sioe yn denu cystadleuwyr ac ymwelwyr o bob cwr o Gymru a Phrydain ac yn 2008, bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr. Gyda chefnogaeth barhaus dros100 o stondinau masnach, hwn yw'r digwyddiad awyr agored mwyaf yn Aberystwyth a'r cyffiniau. Yn ei dro, mae hyn yn arwain at gynnydd yn y sylw a gaiff y sioe yn y cyfryngau ac ar orsafoedd radio lleol a chenedlaethol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu'r un pecyn â'r llynedd neu os ydych chi'n noddwr newydd sydd â diddordeb mewn unrhyw rai o'r pecynnau sydd ar gael, cysylltwch â mi erbyn 11 Mai, 2009 neu cysylltwch â'r Cydgysylltydd Noddi, Meretta Griffiths, 96 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DF, ffôn: 01970 820030 ar ôl 6pm.

Edrychwch ar y dewisiadau dros y dudalen ac mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych chi ddiddordeb neu i drafod y mater ymhellach.

Diolchaf i chi ymlaen llaw am ddangos diddordeb yn Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion a gobeithiwn eich gweld chi ar 13 Mehefin, 2009.

Yn gywir

G Wyn James

Wyn James
Cadeirydd Pwyllgor y Sioe

Dyma'r pecynnau nawdd a gynigir:

Pecyn Efydd: £75

- 2 Fathodyn Noddwr (mynediad i'r sioe)
- Lluniaeth ysgafn
- Enw'r unigolyn / grŵp / cwmni yn y rhestr o noddwyr yng nghatalog y sioe

Pecyn Arian: £100

- 2 Fathodyn Noddwr (mynediad i'r sioe)
- 2 docyn ychwanegol
- Lluniaeth ysgafn
- Enw'r unigolyn / grŵp / cwmni yn y rhestr o noddwyr yng nghatalog y sioe
- Lle i roi baner ar faes y sioe

Pecyn Aur: £150

- 2 Fathodyn Noddwr Aur (mynediad i'r sioe)
- 3 Tocyn ychwanegol
- Lluniaeth ysgafn
- Enw'r unigolyn / grŵp / cwmni yn y rhestr o noddwyr yng nghatalog y sioe
- Lle i roi baner ar faes y sioe
- Gostyngiad arbennig ar gyfer hysbysebu yng nghatalog y sioe
- Enw'r unigolyn / grŵp / cwmni wedi'i briodoli i adran o'ch dewis (yn ôl yr hyn sydd ar gael) yng nghatalog y sioe.
- Cyhoeddiadau yn hebu eich enw ar yr uchelseinydd
- Cyfle i hysbysebu logo eich cwmni a manylion cysylltu ar wefan y sioe

Noder bod gan y sioe 7 phrif adran: Ceffylau, Gwartheg, Defaid, Dofednod, Hên Beiriannau Cŵn a Chynnyrch. Gellir noddi adrannau cyfan neu ddosbarthiadau unigol. Mae croeso i chwi gysylltu â ni i drafod y dewisiadau hyn.

Gobeithio y bydd y cynnig uchod o ddiddordeb i chi ac edrychaf ymlaen at glywed gennych.

www.sioeaberystwyth.com